Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**
—
Welsh Parliament
**Senedd Commission**

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

10 Tachwedd 2021

Annwyl Peredur

Diolch am adroddiad eich Pwyllgor ar **Graffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2022-23**, a gyhoeddwyd ar 22 Hydref 2021. Mae ymateb y Comisiwn i argymhellion y Pwyllgor Cyllid i'w weld yn **Atodiad 1**.

Rwyf yn falch bod y Pwyllgor yn cefnogi'r cais cyffredinol am adnoddau yn 2022-23 a'i fod wedi cydnabod ymroddiad a hyblygrwydd staff y Comisiwn i gefnogi'r Senedd yn llwyddiannus drwy bandemig parhaus COVID-19.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am ei waith craffu ac rwy'n edrych ymlaen at y ddadl ar y cynnig ynghylch cyllideb y Comisiwn yr wythnos nesaf. Os hoffai eich Pwyllgor gael unrhyw wybodaeth bellach, cofiwch roi gwybod i mi.

Yn gywir

Ken Skates AS

copi at Gomisiynwyr y Senedd, Manon Antoniazzi, Nia Morgan

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.cymru
0300 200 6227

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.wales
0300 200 6227

## Atodiad 1

## Argymhellion y Pwyllgor Cyllid

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn nodi 'Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2022-23' ac, yn ddarostyngedig i'r sylwadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn, mae'n cefnogi'r cais cyffredinol am adnoddau yn 2022-23, ac yn argymell bod y Senedd yn cefnogi'r gyllideb hon.

Nodwyd

Argymhelliad 2. Yn unol â'r datganiad o egwyddorion, mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Comisiwn ariannu pwysau yn ystod y flwyddyn ar y gyllideb y mae ganddo reolaeth drosti trwy effeithlonrwydd a gwneud arbedion yn ystod y flwyddyn, yn hytrach na thrwy gyllidebau atodol.

Derbyniwyd mewn egwyddor

Bydd y Comisiwn, wrth gwrs, yn chwilio am gyfle i ariannu pwysau yn ystod y flwyddyn ar ei gyllideb weithredol drwy nodi unrhyw arbedion yn ystod y flwyddyn yn y lle cyntaf.

Fodd bynnag, nid oes gan y Comisiwn gyllideb wrth gefn ac mae'n anodd iddo ymateb i bwysau yn ystod y flwyddyn, yn enwedig y rhai sydd allan o'i reolaeth megis y cynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol, heb leihau'r gwasanaethau presennol na Chyllideb Atodol.

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yn rhaid i'r Comisiwn ddangos yn glir sut y mae'n cadw at y datganiad o egwyddorion wrth lunio cyllidebau yn y dyfodol y tu hwnt i 2022-23 ac, yn benodol, na ddylai gymryd yn ganiataol y bydd y cyllid yn cynyddu o un flwyddyn i'r llall.

Derbyniwyd

Fel y nodwyd yn ein sesiwn graffu ddiweddar, mae'r Comisiwn yn ymwybodol o'r Datganiad o Egwyddorion a nodwyd gan y Pwyllgor Cyllid blaenorol ac yn ystyriol ohono ac nid yw'n cymryd yn ganiataol y bydd cynnydd mewn cyllid o un flwyddyn i'r llall.

Roedd hyn yn amlwg yng nghyllideb 2021-22, lle cyflwynwyd cynnydd o 1 y cant yn y gyllideb weithredol a oedd yn cynnwys toriad sylweddol i'r gronfa prosiectau. Roedd hyn yn doriad mewn termau real.

Yn unol â'r Datganiad o Egwyddorion, pennir cyllideb y Comisiwn i ddarparu'r lefel ofynnol o adnoddau sydd eu hangen i fodloni'r lefel ddisgwyliedig o alw ac i sicrhau y gall y Senedd gyflawni ei busnes.

Mae'r cynnydd o 4.4 y cant yn y gyllideb weithredol yn adlewyrchu'r pwysau cynyddol ar y Comisiwn i gyflawni ei nodau a'i flaenoriaethau yn ystod y Chweched Senedd. Ystyriwyd cynnydd o lai na 4.4% gan y Comisiwn a adolygodd nifer o senarios cyllideb a'r risgiau sy'n gysylltiedig â lefel is o gyllid. Daeth y Comisiwn i'r casgliad y byddai cyllideb is yn rhoi gallu'r Comisiwn i ymateb i ofynion y Chweched Senedd mewn perygl.

**Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Comisiwn yn darparu cymaint o wybodaeth â phosibl i'r Pwyllgor ynghylch unrhyw gostau ychwanegol a fydd yn ymddangos yn y gyllideb ar gyfer 2023-24 a thu hwnt, cyn gynted ag y cytunir ar nodau, amcanion a blaenoriaethau'r Comisiwn ar gyfer y Chweched Senedd.**

Derbyniwyd

Rydym yn croesawu'r cyfle i rannu ein nodau, ein hamcanion a'n blaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd gyda'r Pwyllgor unwaith y cytunir arnynt erbyn diwedd mis Chwefror 2022. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw gostau ychwanegol a fydd yn ymddangos yn y gyllideb ar gyfer 2023-24 a thu hwnt.

**Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Comisiwn yn parhau i ddarparu adroddiadau cyfnodol yn ystod gweddill blwyddyn ariannol 2021-22, ar gostau ac arbedion yn ystod y flwyddyn sy'n gysylltiedig ag effaith COVID-19**

Derbyniwyd

Byddwn yn rhoi asesiad interim i'r Pwyllgor o oblygiadau ariannol Covid-19, fel ar 31 Rhagfyr 2021, ym mis Chwefror 2022. Byddwn yn hefyd yn rhoi diweddariad terfynol ar gyfer 2021-22 yn dilyn yr archwiliad allanol ar gyfer y flwyddyn ariannol hon.

**Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Comisiwn:**

- **yn cadarnhau ei gyfrifoldebau prydlesol mewn perthynas â chynnal a chadw adeilad Tŷ Hywel;**
- **yn egluro a yw'n rhwym o dan gontract i roi ffenestri newydd ar Dŷ Hywel yn ystod y Chweched Senedd, fel un o amodau cyfreithiol y brydles bresennol.**

Derbyniwyd

Mae'n ofynnol i'r Comisiwn, o dan delerau'r Brydles, 'atgyweirio, cynnal a chadw a glanhau'r Safle a chadw'r Safle mewn cyflwr da.'

Nid yw'r Comisiwn wedi'i rwymo'n gontractaidd i adnewyddu pob ffenestr yn benodol fel un o amodau cyfreithiol y brydles bresennol. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i'r Comisiwn gynnal yr eiddo mewn cyflwr da ac felly mae gofyniad cyfreithiol ar y Comisiwn adnewyddu'r ffenestri hynny sydd wedi methu.

Mae unrhyw benderfyniad i adnewyddu'r holl ffenestri yn dibynnu ar ofynion hirdymor y Comisiwn ar gyfer Tŷ Hywel a'r strategaeth lety ehangach ar gyfer y Senedd a Llywodraeth Cymru. Nes y gwneir penderfyniad ar ddyfodol hirdymor Tŷ Hywel, ni wneir penderfyniad i barhau ag adnewyddu'r holl ffenestri.

**Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Comisiwn yn rhoi diweddariadau ar y modd y mae'r ffyrdd newydd o weithio, a'r gofynion ar gyfer gofod swyddfa gan Lywodraeth Cymru, yn ogystal ag unrhyw gynigion ar gyfer diwygio'r Senedd, yn effeithio ar gynlluniau'r Comisiwn ar gyfer yr ystâd, â'i anghenion o ran gofod swyddfa, yn enwedig pan allai hynny olygu goblygiadau o ran adnoddau.**

Derbyniwyd

Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu a chaiff ei hymgorffori yn Strategaeth Llety'r Comisiwn. Byddwn yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ym mis Chwefror 2022

**Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Comisiwn yn blaenoriaethu ac yn gweithredu newidiadau sy'n gysylltiedig â'i Strategaeth Carbon Niwtral 2021-2030 sy'n syml ac yn gost-effeithiol, ar y cyfle cyntaf.**

Derbyniwyd

Canfu'r Strategaeth Garbon Niwtral nifer o gamau syml a chost-effeithiol y gellir eu rhoi ar waith yn y tymor byr ac mae ein blaengynllun cynnal a chadw 10 mlynedd wedi'i ddiweddaru i gynnwys y rhain. Ar gyfer y flwyddyn ariannol hon a'r un nesaf , byddwn yn parhau i adnewyddu goleuo LED ar gyfer Tŷ Hywel a byddwn yn cyflwyno galluoedd mesuryddion newydd i dargedu ardaloedd lle y gallwn leihau'r defnydd o ynni.

Mae'r Comisiwn wedi cytuno, hefyd, i ymuno â Chynllun Gwresogi Ardal Caerdydd. Disgwylir i hwn ddod yn weithredol yn ystod 2023, ac mae'n Strategaeth darged tymor canolig bwysig iawn a bydd yn sicrhau gostyngiad sylweddol yn ein hallyriadau Carbon.

**Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Comisiwn yn adrodd ar ei lwyddiant neu fel arall wrth ymgysylltu â charfannau sy'n anodd eu cyrraedd, yn enwedig y rheini**

sydd mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is, er mwyn sicrhau bod ei weithgareddau ymgysylltu ac allgymorth yn effeithiol ac yn darparu gwerth am arian.

Derbyniwyd

Ar 19 Hydref 2021, ysgrifeasom at y Pwyllgor Cyllid i roi rhagor o wybodaeth am gynlluniau'r Comisiwn i estyn allan at garfanau nad ydynt yn draddodiadol yn ymgysylltu â'r Senedd. Mae copi o'r Atodiad yn y llythyr hwn wedi'i gynnwys isod.

Byddwn yn adrodd ar lwyddiant neu fel arall y mentrau hyn, ac a ydynt yn effeithiol ac yn darparu gwerth am arian, mewn dogfennau Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn y dyfodol, o fewn yr adran Dadansoddi Perfformiad.

## Atodiad a gynhwysir yn y llythyr dyddiedig 19 Hydref 2021

Ymgysylltu â'r rhai nad ydynt fel arfer yn ymddiddori yn ein gwaith yw un o brif flaenoriaethau ein timau cyfathrebu ac ymgysylltu. Yn ystod y pandemig rydym wedi gorfod symud llawer o'n gwaith ymgysylltu ar-lein a throi at gyfarfodydd a sesiynau addysg rhithwir.

Mae nifer y bobl sy'n cymryd rhan ym mhob sesiwn ymgysylltu wedi cynyddu o 34 fesul sesiwn ar gyfartaledd cyn y pandemig, i 72 fesul sesiwn o fis Ebrill 2021. Wrth i ni ddychwelyd fwyfwy at ymgysylltu wyneb yn wyneb, byddwn hefyd yn sicrhau ein bod yn cynnal ansawdd y gwaith ymgysylltu rhithwir, sydd eisoes wedi cyrraedd mwy o bobl na fyddai â diddordeb fel arfer yn ein gwaith.

Cyn bo hir byddwn yn cynnal ein hail gyfres o etholiadau i Senedd Ieuenctid Cymru ym mis Tachwedd 2021, lle bydd 285 o bobl ifanc yn sefyll i'w hethol. Bydd y rhai sy'n cael eu hethol yn gweithio gyda phobl ifanc eraill ledled Cymru i drin a thrafod materion sy'n bwysig iddynt.

Gwyddom fod y cyfryngau cymdeithasol yn cynnig cyfleoedd gwych i estyn allan at bleidleiswyr iau, yn ogystal â mwy o bleidleiswyr sydd wedi ymddieithrio, ac rydym wedi cryfhau ein timau i wella ein gwaith yn y maes hwn. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gweld cynnydd o 20% yn nifer y dilynwyr ar draws ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a byddwn yn rhoi mwy o bwyslais ar adlewyrchu profiad bywyd y rhai sy'n rhoi tystiolaeth i bwyllgorau. Bydd y dull "astudiaeth achos" hwn yn gwella ymgysylltiad yn ogystal â chynyddu diddordeb yn ein gwaith.

Byddwn hefyd yn buddsoddi mewn offer ymgysylltu ar-lein a fydd yn ei gwneud yn llawer haws i'r cyhoedd gymryd rhan mewn ymchwiliadau pwyllgorau, sydd, fe gredwn, yn sbardun i lawer o'n gwaith ymgysylltu a chyfathrebu. Mae swyddogion hefyd yn cymryd rhan weithredol ac yn gweithio gyda phwyllgorau i chwilio am gyfleoedd i gynnwys pobl ifanc yn eu gwaith.